



Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 27^{ain} o Fedi 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.30yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Dirprwy Faer y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Owen James, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Lesley Prosser.
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Rebecca Butcher.

Cyn y cyfarfod, rhoddodd Mr Owen Phillips, Cydlynnydd Digidol CSG, gyflwyniad i'r Cynghorwyr. Roedd hyn i esbonio prosiect newydd i adnabod Llandeilo fel Tref Wi-Fi. Yr amcan fyddai galluogi busnesau lleol i weithio ar y cyd yn effeithiol a rhoi hwb i'r economi leol fel hyn.

Datganiadau o Fuddiant. Dim.

Materion yn ymwneud â'r Heddlu

Dywedodd y SCCH Roger Anthony y cafwyd ychydig fisoedd prysur gyda'r amrywiol wyliau yn y Dref, a'u bod wedi mynd yn hwylus.

Cof 136 / Medi / 17 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y Cyfarfod. Dywedodd fod y biniau sbwriel ar hyd yr A40, rhwng y cylchfan a Phorthdy'r Brenin, yn cael eu casglu'n fwy aml nawr.

Roedd y Cyng. Thomas wedi derbyn sicrwydd y byddai Adran Cynllunio CSG yn aros yn Llandeilo. Roedd wedi mynegi pryderon i CSG nad yw Neuadd y Sgowtiaid yn cael ei chynnal wedi i'r gangen leol gau.

Cof 137 / Medi / 17 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 26^{ain} o Orffennaf 2017, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 22^{ain} o Awst 2017, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir. Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 13^{eg} o Fedi, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

Cynigwyd gan y Cyng. Gordon Kilby ac eiliwyd gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir, ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn gyda'r diwygiadau canlynol:-

Mae angen ychwanegu enwau'r Cyng. Geraint Price, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Lesley Prosser at y rheiny a oedd yn bresennol.

Ynglŷn â Cof 131/Medi / 17 Cyfrifon i'w Talu – mae angen newid cyfanswm y Cyfrif Cyfredol o £44,444.55 i £48,444.55. Cynigwyd gan y Cyng. Owen James ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 138 / Medi / 17 Doedd dim materion yn deillio o'r cyfarfodydd blaenorol

Cof 139 / Medi / 17 Gohebiaeth yn galw am ymateb

1. Ken Murphy, Prif Weithredwr YAD, cais i ymestyn prydles Neuadd y Sir.

a) Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod y Cyngor yn cytuno i gais Mr Murphy i ymestyn estyniad y cytundeb prydles i dalu'r biliau Cyfleustodau nes iddynt adael yr adeilad, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

b) Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod llythyr yn cael ei anfon i Mr Murphy, i gydnabod y ffaith mai YAD yw perchennogion byrddau a chadeiriau'r Siambr. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Lesley Prosser. Roedd pawb o blaid.

c) Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod y Cyngor yn derbyn y cynnig a wnaed gan YAD, am i'r Cyngor gael defnyddio ystafell bwyllogora Tŷ Cornel ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Tref, os oes angen. Eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

2. Robert Evans, ynglŷn â chais i ailosod hysbysfwrdd dan yr archfa ger y Maes Parcio.

Cynigodd y Cyng. Gordon Kilby bod y Cyngor yn ailosod yr hysbysfwrdd, ac eiliwyd gan y Cyng. Lesley Prosser. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins ddiwygiad bod y Cyngor ddim yn ailosod yr hysbysfwrdd.

Cafodd y diwygiad ei gario gan 7 i 2.

Cof 140 / Medi / 17 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Symud Cymru Ymlaen. Nodwyd.

2. Carl Willett, cais gan Wyl y Synhwyrâu i osod toiledau dros dro yng nghwrt Neuadd y Sir. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y cais hwn yn cael ei wrthod, ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

3. Brian Clark, yn diolch i'r Cyngor am gychwyn yr 20mya trwy ganol y Dref. Nodwyd.

4. Adroddodd y Maer am y cyfarfod gyda Mr Ross Beynon, mewn perthynas â'r coed sydd wedi gordyfu. Nodwyd.

Cof 141 / Medi / 17 Materion Ariannol

1. Cyfrifon i'w Talu

	Net	TAW	Cyfanswm
Orchardweb (gwefan)	£ 234.00		£ 234.00*
Band Llydan BT (DU)	£ 53.20	£ 10.64	£ 63.84
Ffôn BT (DU)	£ 51.01	£ 10.20	£ 61.21
Pinc (Torch derbyniad y Maer).	£ 30.00		£ 30.00#
N.Wall (atgyweirio cadwyn)	£ 20.00		£ 20.00#
D.Davies (DD625)	£ 59.95		£ 59.95

du- debyd uniongyrchol # - siec * bacs.

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 142 / Medi / 17 Materion Ariannol Eraill

1. Cyllideb 2018/19

Roedd y Swyddog Cyllid wedi dosbarthu dadansoddiad llawn o incwm a gwariant y Cyngor. Fe wnaeth Mr Plummer atgoffa'r Cyngor eu bod wedi cytuno i gymryd benthyciad o £125,000, i gwblhau gwaith adnewyddu angenrheidiol yn Neuadd y Sir. Byddai hyn yn cyfateb i ad-daliad o £7,000 y flwyddyn, dros gyfnod y benthyciad. Roedd yn mynnu fod yn rhaid i'r Cyngor flaenoriaethu eitemau ar gyfer unrhyw wariant yn y dyfodol. Fe fyddai'n rhaid i'r Cyngor barhau i reoli ei wariant. Fe fyddai'r cronfeydd cyfalaf yn cael eu dwyn ymlaen.

Fel y cytunwyd eisoes, byddai'r Cyngor yn parhau i ofyn am gynnydd o 5% yn y Praesept bob blwyddyn am fwy na 4-5 mlynedd.

Anogodd y Cynghorwyr i gyd i ystyried eu blaenoriaethau ar gyfer y gyllideb mewn parodrwydd ar gyfer y Cyfarfod Arbennig ar y Gyllideb ym mis Rhagfyr.

2. Dywedodd Mr Plummer ei fod wedi derbyn adroddiad ar ffurflen Archwilio ar gyfer 2016/17 gan Grant Thornton, yr Archwilwyr allanol. Doedd dim byd i ddwyn i sylw'r Cyngor. Fodd bynnag, fe wnaeth yr Archwilydd sylw y dylai'r Cyngor fabwysiadu Gorchymyn Diwygio Côd Ymddygiad 2016. Nodwyd.

Cof 143 / Medi / 17 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd adroddiad Mr Davies wedi cael ei ddosbarthu ymlaen llaw. Dywedodd bod dyddiad y profion angori, sy'n cael eu cynnal gan Lloyds British, wedi newid i'r 8^{fed} o Hydref.

Holodd y Cyng. Lesley Prosser a allai'r Cyngor weithio i dacluso llwybr troed 69/1. Roedd y Cyngor wedi gwneud sawl cais i CSG wneud gwaith ar y llwybr troed hwn, ond heb lwyddiant. Cytunodd y Cyng. Edward Thomas i gysylltu â Caroline Ferguson, CSG, i ganfod pam nad yw'r gwaith a gytunwyd wedi cael ei wneud.

Cafwyd cais gan Mr Davies am i gyfarfod o'r is-grŵp goleuadau Nadolig gael ei drefnu, cyn gynted ag sy'n bosib. Cytunwyd byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal ar y 4^{ydd} o Hydref am 6.30yh.

Cof 144 / Medi / 17 Y Diweddaraf ar Dros-glwyddo Asedau

Adroddodd y Cyng. Edward Thomas am gyfarfod yr Is-grŵp Tros-glwyddo Asedau, a gynhaliwyd ar y 26^{ain} o Fedi. Roedd y materion cyfreithiol yn dod yn eu blaenau'n araf bach.

Roedd y Maer wedi arwyddo'r Weithred Gyfamodi. Roedd yna bryderon am iechyd a diogelwch, oherwydd diffyg cynnydd wrth roi arwyneb newydd i'r cwrn tennis ym Mharc Le Conquet a gwaith ar wal derfyn gornel De Ddwyreiniol ym Mharc Penlan.

Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod llythyr yn cael ei anfon i Bennaeth Gwasanaeth CSG i achwyn, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Eifion Davies. Roedd pawb o blaid.

Roedd yr Is-grŵp wedi ymweld ag ardaloedd chwarae lleol yn ddiweddar, ac wedi cwrdd â chynrychiolydd o HAGS -SMP, y contractwr ffafredig i ddarparu cyfarpar i uwchraddio ardal chwarae Parc Le Conquet.

Roedd cysylltiad yn cael ei wneud gyda WREN, i wneud cais am grant i osod cwrn amlbwrpas ar y 3^{ydd} cwrn tennis.

Rhodddwyd canmoliaeth i Hugh Gwynne am ei waith ardderchog i gynnal a chadw'r ddau barc.

Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod llythyr yn cael ei anfon i Mr Gwynne, yn cadarnhau cais

y Cyngor iddo fwrw ymlaen gyda'r gwaith, fel rhan o'r contract 3 mlynedd presennol, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid.

Roedd yr Is-grŵp wedi derbyn cais gan y Clwb Bowls am gymorth i brynu peiriant torri gwair newydd. Byddai'r Clwb Bowls yn prynu'r peiriant torri gwair oddi wrth y Cyngor, gydag arian a godwyd gan y Clwb Bowls. Roedd yna ddiffyg o £947, y byddai'r Cyngor yn ei osod yn erbyn gwaith cynnal a chadw cytunedig Parc Le Conquet. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas eu bod yn bwrw ymlaen â'r pwrceas, yn amodol ar yr holl faterion cyfreithiol, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid. Unwaith bydd y peiriant wedi cael ei brynu, bydd y Cyngor yn mynd i drafodaethau pellach gyda'r Clwb Bowls.

Cof 145 / Medi / 17 Trawsgludiaeth a Phrifyrdd

Adroddodd y Clerc am ohebiaeth gyda Network Rail, mewn perthynas â llysdyfiant sy'n tyfu ar y llwybr troed sy'n arwain o'r orsaf drenau. Codwyd y ffôn sawl gwaith i achwyn am y mater. Yn olaf, derbyniwyd e-bost i ddweud na fyddai Network Rail yn gwneud unrhyw waith i docio'r llysdyfiant. Roedd y Maer a'r Cyngorydd Sir Edward Thomas wedi ysgrifennu atynt hefyd.

Cof 146 / Medi / 17 Darparu Gwybodaeth i'r Cyhoedd

Cafwyd cais gan y Cyng. Lesley Prosser bod y Cyngor yn ystyried paratoi cylchlythyr, a ellid ei ddsbarthu i'r trigolion i gyd. Cytunwyd byddai'r Cyng. Prosser a'r Cyng. Edward Thomas yn trafod hyn ac yn dod â'u casgliadau i Gyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Hydref.

Cof 147 / Medi / 17 Adroddiad y Maer

Rhoddodd y Maer yr adroddiad canlynol ar y digwyddiadau a fynychodd ar ran y Cyngor:-
29^{ain} o Orffennaf Mynychodd y Maer a'r Dirprwy Faer agoriad Clwb Garddio Llandeilo yn y Neuadd Ddinesig.
3^{ydd} o Awst Mynychwyd Fforwm Busnesau Bach Llandeilo ym Maryellens.
19^{eg} o Awst Mynychodd y Maer a'r Dirprwy Faer Eglwys San Pedr, Caerfyrddin, i anrhydeddu Rhys ap Thomas ym Mrwydr Bosworth, trwy ddadorchuddio ei faner.
Yn y prynhawn, mynychodd y Maer Sioe Llandeilo.
14^{eg} o Fedi Mynychwyd noson gyri yn y Cottage Inn, Llandeilo.
23^{ain} o Fedi Gwahoddiad gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gyflwyno medalau a gwobrau i gystadleuwyr yn y ras Gwartheg Gwynion ym Mharc Dinefwr.

Cof 148 / Medi / 17 Adroddiadau Eraill

1. Adroddiad yr Is-grŵp Goleuadau Nadolig.
Dosbarthwyd adroddiad ar y Cyfarfod, a gynhaliwyd ar y 25^{ain} o Orffennaf, cyn Cyfarfod y Cyngor. Oherwydd bod y gyllideb wedi cael ei chwtogi i £4,500, cytunwyd y byddai £1,010 yn cael ei glustnodi ar gyfer motiffau newydd, yn ogystal â £429 ychwanegol ar gyfer ychwanegiadau i gwblhau'r gwaith atgyweirio. Byddai hyn yn dod â'r gyllideb i gyfanswm o £6,245.00. Gobeithiwyd byddai incwm o roddion a dderbyniwyd gan fusnesau lleol yn lleihau'r gost uchel o gael Coeden Nadolig.
Byddai cyfarfod nesaf yr Is-grŵp yn cael ei gynnal ar nos Fawrth y 24^{ain} o Hydref am 6.30yh.
2. Adroddiad Is-grŵp y Wefan.
Roedd y Cyng. Rebecca Butcher wedi dosbarthu adroddiad yn nodi bod newidiadau wedi cael eu gwneud i'r wefan, yn ogystal ag yn argymhell newidiadau pellach i wella'r wefan. Roedd y rhain yn cynnwys diweddarau Cyfeirlyfr y Cyngor o Fusnesau, Siopau a Sefydliadau.
3. Adroddiad yr Is-grŵp Tân Gwyllt.

Dosbarthwyd yr adroddiad cyn cyfarfod y Cyngor. Roedd yn rhoi dadansoddiad o holl drefniadau'r digwyddiad. Dywedodd y canlynol y byddent yn bresennol i helpu yn y digwyddiad:-

Y Cyng. Owen James, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Dawn Wallace. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar y 24^{am} o Hydref am 6.00yh.

Cof 149 / Medi / 17 Eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Dywedodd y Cyng. Robert Jones bod Mr Aled Rees wedi cael ei benodi'n Bennaeth newydd ar Ysgol Teilo Sant ac y byddai'n cychwyn ym mis Ionawr 2018.

Dywedodd y Cyng. Colin Jenkins bod yr RNLI yn cynnal digwyddiad elusennol ar y 6^{ed} o Hydref 2017.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25yh.